# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Mai 2015 i'w hateb ar 20 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weinyddu practisiau meddygon teulu sy'n croesi ffiniau byrddau iechyd lleol? OAQ(4)0586(HSS)

2. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau arferol yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)0603(HSS)

3. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o berfformiad y gronfa gofal canolraddol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0598(HSS)**W**

4. **David Rees (Aberafan):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ysmygu? OAQ(4)0597(HSS)

5. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nyrsys arbenigol yng Nghymru? OAQ(4)0593(HSS)

6. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y Gweinidog a'i adran i sicrhau gwell canlyniadau i gleifion sydd angen gofal brys yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0599(HSS)

7. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'n eu cymryd i wella mynediad at wasanaethau iechyd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0600(HSS)

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi'r gronfa cynaliadwyedd meddygon teulu ar waith? OAQ(4)0601(HSS)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa effaith y mae carchardai gorlawn yn ei chael ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? OAQ(4)0594(HSS)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd y cafodd y Gweinidog ei gyfarfod perfformiad diweddaraf â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0604(HSS)**W**

**11. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf i weithredu cynllun Cylch Caron? OAQ(4)0590(HSS)**W**

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed yng Nghymru? OAQ(4)0595(HSS)

**13. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau staffio yn y gwasanaeth iechyd? OAQ(4)0602(HSS)**W**

**14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at ddulliau o reoli poen yng Nghymru? OAQ(4)0596(HSS)

**15. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant meddygol mewn ysbytai yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0592(HSS)W

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith ynghylch y model cadw pwerau? OAQ(4)0079(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol ynghylch goblygiadau Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cymru 2014? OAQ(4)0078(CG)W

**3. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Wrth roi cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru, a yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi gofyn am gyngor gan drydydd partïon? OAQ(4)0077(CG)